**Hydref 2014**

# PROFFILIAU AELODAU BWRDD Y GORFFORAETH

## Colin Cornelius (Tan Fai 2016) Cadeirydd Bwrdd y Gorfforaeth

Yn gyn Reolwr Grŵp Banc Barclays, mae Colin yn hunangyflogedig bellach ac yn ymgynghorydd busnes i nifer o gwmnïau. Mae ganddo gryn arbenigedd ariannol ac mae wedi dal sawl swydd fel Cadeirydd/Trysorydd ar draws meysydd iechyd, addysg a chwaraeon.

## Carol Green (Tan Fehefin 2016) Is-gadeirydd Bwrdd y Gorfforaeth

Mae Carol yn un o Gyfarwyddwyr Gweithredol Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe. Mae hefyd yn Ynad, yn aelod o Dribiwnlys Prisio Cymru, ac yn aelod o Grŵp Gwella Strategol Llywodraeth Cymru. Mae'n Ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau.

## David Ashelby (Tan Fehefin 2018)

Cyn ymddeol roedd David yn Ysgrifennydd Academaidd Prifysgol Fetropolitan Abertawe. Mae ganddo brofiad eang ym maes addysg gan gynnwys ymwneud â datblygiadau cenedlaethol, yn enwedig yn y sectorau ôl-16, datblygiadau cyfochrog y llwybrau academaidd a galwedigaethol a chydweithredu sefydliadol.

## John Britton (Tan Fehefin 2015)

Mae John yn Gyfarwyddwr Cynorthwyol Cynllunio ym Mhrifysgol Caerdydd. Yn ddiweddar mae wedi cymryd rhan mewn dau grŵp arbenigwyr Cymdeithas Prifysgolion Ewrop ynghylch 'prosesau uno' a 'chyllid ar sail perfformiad'.

## Tim Clark (Tan Fedi 2018)

Mae Tim yn beiriannydd mecanyddol amlfedrus gyda 25 mlynedd o brofiad ym myd diwydiant. Mae'n addysgwr sy'n ymroddedig i godi safonau a diwygio'r cwricwlwm.

## Rory Daniels (Tan Fehefin 2015)

Ar hyn o bryd mae Rory yn astudio Economeg, Daearyddiaeth a Mathemateg Ddwbl ar Gampws Gorseinon Coleg Gŵyr Abertawe. Mae wedi bod yn aelod o gynghorau ysgolion ac eco-bwyllgorau ac mae'n teimlo'n angerddol ynglŷn â gwneud gwahaniaeth a dysgu ar yr un pryd. Mae'n gobeithio astudio Economeg a Rheolaeth yn y brifysgol.

## Mike Day (Tan Fedi 2016)

Mae Mike yn Gyfarwyddwr dau gwmni sy'n hyrwyddo datblygiadau addysgol i blant a phobl ifanc. Mae'n Ymddiriedolwr Sefydlu Addysg Ryngwladol Cymru, elusen sy'n ceisio hyrwyddo cyfnewid arferion addysgol gorau rhwng Cymru a gwledydd eraill. Mae hefyd yn Gynghorydd dros ward Sgeti.

## Hydref 2014

### Andrew Donald (Tan Fai 2018)

Mae Andrew yn Arbenigwr Rheoli Gwerthiant yn y Diwydiant Telathrebu ac mae ganddo ystod eang o brofiad ym maes rheoli cyffredinol. Bu’n aelod o nifer o gyrff cyhoeddus ac mae ganddo gefndir amrywiol ym meysydd cyllid, TG, chwaraeon, gweithgynhyrchu a’r sector gwirfoddol. Mae ei fab yn astudio yn y Coleg ar hyn o bryd.

### Mark Jones

Mark yw Pennaeth a Phrif Swyddog Gweithredol Coleg Gŵyr Abertawe. Cyn dychwelyd i Abertawe, roedd Mark yn Bennaeth Coleg Pen-y-bont ar Ogwr am wyth mlynedd. Mae Mark yn athro cymwysedig ac yn gyfrifydd siartredig cymwysedig. Ym Mai 2013 penodwyd Mark yn Gadeirydd Colegau Cymru – sefydliad cenedlaethol sy’n cynrychioli pob coleg yng Nghymru – gan ei gydbenaethiaid.

### Robin Kirby (Tan Fehefin 2015)

Mae Robin wedi bod yn gyfreithiwr mewn cwmni preifat ers 40 mlynedd ac mae’n gwneud gwaith barnwrol rhan-amser. Mae’n Gadeirydd Cyfeillion Gŵyr ac yn Ymddiriedolwr Clwb Rygbi Uplands. Arferai fod yn Gadeirydd y Llywodraethwyr yng Ngholeg Gorseinon.

### Ceri Low (Tan Fedi 2018)

Mae gan Ceri gefndir yn y Gyfraith ac Addysg. Ar hyn o bryd mae’n cydlynu Cymorth Dysgu Ychwanegol. Mae hyn yn cynnwys gweithio ar draws pob maes coleg, gan sicrhau bod technoleg staff a chymorth penodol angenrheidiol yn cael eu darparu ar gyfer myfyrwyr ag amrywiaeth o anghenion dysgu ychwanegol ac anableddau.

### Peter Padley (Tan Fehefin 2015)

Mae Peter yn wyddonydd ac yn beirianegydd proffesiynol sydd wedi ymddeol erbyn hyn. Mae ganddo ddiddordebau mewn cynhyrchu, defnyddio a chynilo ynni.

### Chantal Patel (Tan Fehefin 2018)

Mae Chantal yn darlithio ym Mhrifysgol Abertawe. Mae hefyd yn Aelod Bwrdd o Grŵp Gwalia Cyf ac yn Ynad Heddwch.

### Y Cynghorydd Jennifer Raynor

Mae’r Cyng Raynor yn Aelod o Gabinet Dinas a Sir Abertawe dros Addysg. Mae’n cynrychioli ward Dynfant.

## Hydref 2014

### Fiona Rees (Tan Fai 2017)

Mae Fiona yn Gyfarwyddwr ac yn Aelod Bwrdd o Swansea Bay Futures Ltd, cwmni sy’n gweithio tuag at ‘Gysylltu a Hyrwyddo Busnes a Datblygiad ym Mae Abertawe’. Felly, mae ganddi rwydwaith eang o gysylltiadau a dealltwriaeth ardderchog o’r heriau sy’n wynebu’r ardal o ran adfywio, datblygu economaidd, cyflogaeth a sgiliau. Mae ganddi gefndir ym meysydd marchnata, cyfathrebu a rheolaeth gyffredinol ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat.

### Y Cynghorydd Christine Richards

Mae’r Cyng Richards yn Ddirprwy Arweinydd Cyngor Dinas a Sir Abertawe ac Aelod o Gabinet dros Wasanaethau i Blant a Phobl Ifanc. Mae’n cynrychioli ward Casllwchwr Isaf.

### Ray Singh CBE (Tan Fehefin 2018)

Mae Ray Singh CBE wedi bod yn fargyfreithiwr ac yn farnwr amser llawn a rhan-amser ers 20 mlynedd. Mae hefyd yn Is-gadeirydd Grŵp Gwalia Cyf, yn Aelod Annibynnol o Ganolfan Ganser Felindre a Gwasanaeth Gwaed Cymru, Ymddiriedolaeth GIG, yn Llywydd Rhwydwaith Canolfannau Cyswllt â Phlant Cymru, yn Gadeirydd Canolfannau Cyswllt â Phlant Aberdâr a Merthyr Tudful, yn Ymddiriedolwr/Aelod Bwrdd o Gymdeithas Genedlaethol Canolfannau Cyswllt â Phlant Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, yn Gyfryngwr hyfforddedig mewn Materion Plant a Theuluoedd, yn gyn Lywodraethwr Prifysgol Fetropolitan Abertawe, yn gyn Gomisiynydd CRE y DU ac yn Gomisiynydd Cymru ac, yn olaf, yn Gadeirydd presennol Cyngor Cydraddoldeb Hiliol Cymru.

### Helen Williams (Tan Fehefin 2015)

Mae Helen yn fyfyriwr hŷn sy’n astudio Cwnsela a Seicoleg ar gampws Tycoch. Mae ganddi ddiddordeb brwd mewn sicrhau bod lleisiau myfyrwyr yn cael eu clywed ar bob lefel gan bawb ym myd addysg.

## Gary Williams (Tan Fai 2017)

Mae Gary wedi bod yn Bennaeth ac yn Is-bennaeth dau sefydliad AB ac ar hyn o bryd mae’n gweithio i Tribal Education fel Cyfarwyddwr Gwasanaethau AB ac AU. Mae gan Gary hanes helaeth yn y sectorau preifat a chyhoeddus ac mae’n cynghori colegau ar uno ac agweddau eraill yn Seland Newydd ac yn y DU.